**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNED, TAI AC ASEDAU**
**7 MEHEFIN 2022**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau, Tai ac Asedau Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we ddydd Mawrth, 7 Mehefin 2022.

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd Helen Brown (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Pam Banks, Gillian Brockley, Tina Claydon, Geoff Collett, David Evans, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Kevin Rush a Dale Selvester

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Sean Bibby (Aelod Cabinet ar gyfer Tai ac Adfywio); Y Cynghorydd Billy Mullin (Aelod Cabinet ar gyfer Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol gan gynnwys Iechyd a Diogelwch ac Adnoddau Dynol); Prif Weithredwr; Rheolwr Gwasanaeth (Tai a Gwasanaeth Atal); Rheolwr Gwasanaeth (Rhaglenni Tai); Rheolwr Gwasanaeth (Asedau Tai); Rheolwr Gwasanaeth (Lles Tai a Chymunedau) a Rheolwr Tîm Busnes a Pherfformiad

**HEFYD YN BRESENNOL:** Yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau ac Addysg a'r Swyddog Gwasanaethau Etholiadol

## 1. PENODI CADEIRYDD

Dywedodd yr Hwylusydd ei fod wedi ei gadarnhau yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir y dylai Cadeirydd y Pwyllgor ddod o'r Grŵp Annibynnol. Gan fod y Cynghorydd Helen Brown wedi'i phenodi i'r swydd hon gan y Grŵp, gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r penderfyniad.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi penodiad y Cynghorydd Helen Brown yn Gadeirydd y Pwyllgor.

(Ar y pwynt hwn, cadeiriodd y Cynghorydd Brown weddill y cyfarfod)

## 2. PENODI IS-GADEIRYDD

Bu i'r Cynghorydd David Evans enwebu'r Cynghorydd Ray Hughes fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Kevin Rush.

Bu i'r Cynghorydd Dale Selvester enwebu'r Cynghorydd Dennis Hutchinson fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor. Diolchodd y Cynghorydd Hutchinson i'r Cynghorydd Selvester ond tynnodd ei enwebiad yn ôl.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Ray Hughes yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

## 3. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

**4. COFNODION**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2022, ac fe'u cynigiwyd a'u heilio gan y Cynghorydd Kevin Rush a'r Cynghorydd Geoff Collett.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

**5. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 2.10pm)

..................................................
**Y Cadeirydd**